**Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon CWLS(2)-03-03(p.3)**

**Dyddiad: 24 Medi 2003**

**Amser: 9.00am – 12.00pm**

**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**ADOLYGIAD POLISI: CYFRANIAD Y CELFYDDYDAU A CHWARAEON AT ADFYWIO CYMUNEDOL**

**LLYTHYR YMGYNGHORI DRAFFT**

**Cyflwyniad**

**Ystrodd y Pwyllgor papur ar yr adolygiad polisi yma yn eu cyfarfod ar 2 Gorffennaf, pan gytunodd hefyd y cylch gorchwyl. Mae'r papur yma yn ymofyn cytuniad y Pwyllgor i dermau'r llythyr ymgynghori ar gyfer cyhoeddiad yn yr wythnos yn dechrau 29 Medi gan ymofyn ymatebion erbyn 5 Rhagfyr. Bydd yr ymatebion yma yn cael eu crynhoi a'i gyflwyno i'r Pwyllgor yn eu cyfarfod ar 21 Ionawr.**

**Atodir rhestr o ymgynghorwyr posib, hefyd ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor.**

**Llythyr ymgynghori**

**PWYLLGOR Y DIWYLLIANT, Y GYMRAEG A CHWARAEON -**

**ADOLYGIAD POLISI: CYFRANIAD Y CELFYDDYDAU A CHWARAEON AT ADFYWIO CYMUNEDOL**

**GWAHODDIAD I GYFRANNU**

**Bydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon yn cynnal adolygiad polisi ar Cyfraniad y celfyddydau a chwaraeon at adfywio cymunedol. Bydd yr adolygiad yn dechrau yn y flwyddyn newydd.**

**Fe'ch gwahoddir i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Dyma gylch gorchwyl yr adolygiad:**

**Adolygu ac ystyried:**

- **y cysylltiadau rhwng y polisïau ym meysydd y celfyddydau, chwaraeon ac adfywio cymunedol;**
- **sut y gall prosiectau lleol ym meysydd y celfyddydau a chwaraeon gyfrannu at adfywio cymunedol;**
- **y dulliau cefnogi ar gyfer prosiectau ym meysydd y celfyddydau a chwaraeon sy'n ymwneud ag adfywio cymunedol;**
- **yr arferion gorau o ran prosiectau ym meysydd y celfyddydau a chwaraeon sy'n ymwneud ag adfywio cymunedol.**

**Byddai'n help pe bae'ch sylwadau'n ymdrin â'r pedwar prif faes yn y cylch gorchwyl.**

**Dylai sylwadau cael ei anfon naill ai yn electronig neu trwy'r post i'r cyfeiriad isod erbyn dydd Gwener 5 Rhagfyr 2003.**

**Os gwyddoch am gyrff neu unigolion a hoffai gyfrannu at yr adolygiad, bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn falch iawn o gael gwybod sut i gysylltu â hwy. Mae copi o'r llythyr hwn a rhestr o'r unigolion a'r cyrff sy'n cymryd rhan yn yr ymgynghoriad ar wefan y Pwyllgor: www.cymru.gov.uk**

**Yn gywir**

**Rosemary Butler A.M**

**Cadeirydd y Pwyllgor**

**Anfonwch eich sylwadau at:**

**Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon,**

**Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau,**

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr,**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru,**

**Bae Caerdydd,**

**Caerdydd**

**CF99 1NA**

**E-bost: culture.committee@wales.gsi.gov.uk**

**Cyhoeddi**

**Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru’n bwriadu cyhoeddi’r cyfraniadau a dderbynnir. Fel arfer, cyhoeddir enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr awdur gyda’r cyfraniad, gan fod hynny’n rhoi hygrededd i’r ymgynghoriad. Os nad ydych am gael eich enwi, a fyddech cystal â nodi hynny yn eich ymateb.**